SgiliauAber

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

Sut i ysgrifennu...

# Traethawd

**Mae'r traethawd academaidd yn aseiniad cyffredin mewn cyrsiau prifysgol lle mae'n rhaid i chi ysgrifennu am bwnc penodol. Pwrpas traethawd yw ateb cwestiwn penodol o fewn terfyn geiriau penodol.**

## Sut i fynd at eich traethawd

### Darllenwch (ac ailddarllen) eich cwestiwn traethawd

- Defnyddiwch y cwestiwn aseiniad fel arweiniad ac i'ch helpu i lunio cynllun da ar gyfer dod o hyd i wybodaeth mewn llyfrau ac erthyglau cyfnodolion.
- Deallwch y cwestiwn traethawd a beth mae'n gofyn i chi ei wneud.
- Chwiliwch am eiriau cyfarwyddyd yng nghwestiwn y traethawd fel "disgrifiwch," "dadansoddwch", "cymharwch," neu "esboniwch." Bydd y rhain yn rhoi syniad da i chi o'r hyn y mae'r cwestiwn am i chi ei wneud.
- Ymgynghorwch â rhestr ddarllen y modiwl.
- Pan fyddwch chi'n chwilio Primo, catalog y llyfrgell a chronfeydd data pwnc benodol am adnoddau, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n canolbwyntio ar ddefnyddio geiriau allweddol sy'n cyd-fynd â'ch pwnc i ddod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnoch i ddarganfod llyfrau ac erthyglau cyfnodolion perthnasol yn effeithiol.

### Byddwch yn drefnus

- Unwaith y byddwch yn deall y cwestiwn, ysgrifennwch eich syniadau, damcaniaethau ac enghreifftiau mewn rhestr fanwl gyda phwyntiau bwled.
- Defnyddiwch y rhestr hon fel man cychwyn ar gyfer gwneud mwy o ymchwil.
- Hefyd, edrychwch ar y llyfrau y mae eich darlithydd wedi'u hawgrymu i ymchwilio ymhellach i'r pynciau.
- Pan edrychwch ar wybodaeth o wahanol ffynonellau, mae'n eich helpu i feddwl yn fwy beirniadol yn eich traethodau.
- Ar ôl i chi chwilio am lenyddiaeth, dechreuwch drafod eich syniadau.
- Bydd creu cynllun traethawd yn ei gwneud hi'n haws dod o hyd i ateb cadarn.
- Gwnewch amlinelliad bras yn gyntaf - bydd hyn yn eich helpu i gael trefn ar eich meddyliau a sicrhau bod eich darllenwyr yn gallu dilyn ymlaen yn hawdd.
- Hefyd, bydd yn gwneud y broses ysgrifennu yn llyfnach i chi hefyd.
- Mae'n syniad da cynllunio pethau *cyn* i chi ddechrau ysgrifennu, fel y bydd eich ateb yn gwneud synnwyr ac yn llifo'n dda.

### Meddyliwch am baragraffau

- Mae'r ffordd rydych chi'n gosod eich traethawd yn bwysig.
- Dylai pob paragraff ganolbwyntio ar un prif syniad, a dylai'r syniadau hynny lifo i'w gilydd yn esmwyth.
- Sicrhewch fod trefn y paragraffau yn gwneud synnwyr.
- Ceisiwch grwpio syniadau tebyg gyda'i gilydd, naill ai yn ôl llinell amser neu thema.
- Cadwch y traethawd yn drefnus ac yn hawdd ei ddilyn.

### Drafftiwch eich traethawd

- Nid hwn fydd eich traethawd terfynol, dim ond y drafft cyntaf ydyw. Meddyliwch amdano fel rhan o'r cam cynllunio.
- Peidiwch â phoeni ar hyn o bryd ei fod wedi'i ysgrifennu'n berffaith neu os yw'r drefn yn gywir.
- Canolbwyntiwch ar gael eich meddyliau i lawr ar bapur.
- Efallai y byddwch am ddechrau eich traethawd trwy weithio ar y prif gorff yn gyntaf ac yna canolbwyntio ar y cyflwyniad a'r casgliad/diweddglo unwaith y bydd gennych eich meddyliau, eich syniadau a'ch tystiolaeth ar ffurf drafft.
- Gwnewch nodiadau ar ymylon eich drafft cyntaf i'ch atgoffa o beth i'w ychwanegu neu newid.
- Byddwch yn barod i adolygu ac ailysgrifennu eich traethawd drafft ychydig o weithiau cyn i chi gyflwyno'r fersiwn terfynol.
- Ar ôl i chi orffen eich drafft, edrychwch ar sut y trefnir eich traethawd.
- Gwnewch yn siŵr bod pob paragraff yn sôn am ran wahanol o'r cwestiwn. A pheidiwch ag anghofio defnyddio geiriau a brawddegau i gysylltu eich syniadau yn llyfn wrth i chi symud o un paragraff i'r nesaf.
- Peidiwch ag anghofio sicrhau eich bod yn ateb cwestiwn y traethawd ac yn ategu eich pwyntiau â thystiolaeth.

### Cyfeirnodi

- Mae'r llyfryddiaeth (neu'r rhestr gyfeirio) yn rhestru'r holl ffynonellau y cyfeirir atynt.
- Dyma lle rydych chi'n cydnabod yr adnoddau rydych chi wedi'u defnyddio.
- Cymerwch amser a gofal ar y cam hwn.
- Dilynwch arddull cyfeirnodi eich Adran a chyfeiriwch yn ôl i'ch llawlyfr modiwl.
- Cysylltwch â'ch Llyfrgellydd Pwnc am gyngor cyfeirnodi.

### Golygu a phrawf-ddarllen

- Dyma lle rydych chi'n gwirio'ch gwaith yn drylwyr.
- Edrychwch ar eich traethawd a gwnewch yn siŵr eich bod wedi ymdrin â phopeth ym mriff yr aseiniad.
- Ydy'ch ateb yn gwneud synnwyr? A ydych yn ateb y cwestiwn?
- Gwiriwch am unrhyw gamgymeriadau gramadeg, atalnodi neu sillafu.
- Edrychwch ar unrhyw adborth a gawsoch ar eich aseiniadau blaenorol a gweld a oes unrhyw awgrymiadau neu gyngor y gallwch weithio gyda nhw.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cydnabod eich holl ffynonellau gan ddefnyddio'r arddull cyfeirnodi cywir (cyfeiriadau yn y testun a'r rhestr gyfeirio), a'ch bod wedi dilyn yr holl reolau cyflwyno megis bylchau llinellau, gan gynnwys delweddau, cyfrif geiriau, ac ati.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael digon o amser i olygu a phrawfddarllen cyn y dyddiad cau.